*Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.*

# Deddf Trwyddedu 2003 – Hysbysiad Cyhoeddus o Gais

# Mân Amrywiad i Drwydded Safle

**Enw’r Ymgeisydd: Boom Battle Bar Cardiff Limited.**

**Enw a Chyfeiriad Post y Safle: Boom Battle Bar Cardiff, Ardal Yr Hen Fragdy, Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1FG**

**Yr amrywiad a gynigir:**
Cais ar gyfer mân amrywiad am y canlynol:

1) Diweddariad i gynllun – rydym yn cynnig amrywiad i'r cynllun trwyddedu i ddarparu ar gyfer cynnwys ‘Beer Pong’. Cyflwynwyd y cynllun trwyddedu diwygiedig hefyd i'r awdurdod trwyddedu.

2) Rydym hefyd yn cynnig cynnwys amodau ychwanegol yn ein trwydded wedi'i diweddaru yn unol â'r amrywiad. Mae hyn i sicrhau bod pob un o'r pedwar amcan trwyddedu yn cael eu hyrwyddo. Mae'r amodau newydd i'w cynnwys yn y drwydded ddiweddaraf fel a ganlyn:

   Rhaid i bob bwrdd y bwriedir ei ddefnyddio ar gyfer 'Beer Pong' naill ai gael ei archebu yn y dderbynfa drwy aelod o staff neu (b) drwy archeb ar-lein a fydd yn cael ei wirio gan aelod o staff wrth ddod i mewn.

   Bydd sesiwn 'Beer Pong' yn cael ei chyfyngu i 45 munud. Bydd sesiynau'n cael eu cyfyngu i un sesiwn i bob grŵp, ni chaniateir sesiynau lluosog.

   Bydd uchafswm o 6 pherson fesul bwrdd 'Beer Pong'.

Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn 'Beer Pong' yn cael eu monitro ar gyfer lefelau ymddygiad a meddwdod gan staff hyfforddedig cyn ac yn ystod y gêm.

Ar ddiwrnodau sy'n cael eu dosbarthu fel diwrnodau digwyddiadau mawr gan Heddlu De Cymru, ni fydd byrddau 'Beer Pong' yn cael eu defnyddio.

Ni fydd mwy na 5 bwrdd 'Beer Pong' ar y safle.

Gellir archwilio'r Gofrestr Drwyddedu yn yr Adran Drwyddedu, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW, rhwng 9.00am a 4.00pm (o ddydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio yn ystod gwyliau cyhoeddus).

Rhaid i unrhyw sylwadau gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig i'r cyfeiriad uchod neu mewn e-bost i trwyddedu@caerdydd.gov.uk erbyn 5 Gorffennaf 2024.

Mae'n drosedd gwneud datganiad anwir ynglŷn â chais yn fwriadol neu'n ddi-hid, a gall hyn arwain at gollfarn ddiannod trwy ddirwy ddigyfyngiad.